**Cofnodion o gyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 6 Mehefin 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies

**Trwy Wahoddiad:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig Huw Irranca-Davies AoS, Llywodraeth Cymru
Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol:** Heather Anstey-Myers (Prif Weithredwr Dros-dro)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Anne Dunn (Arweinydd Cyfathrebiadau a Materion Allanol)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)

**<u>I groesawu Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AoS</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Ysgrifennydd y Cabinet a chyflwynodd aelodau'r Bwrdd eu hunain bob yn un.

Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod gan y sector bwyd a diod yng Nghymru enw eithriadol o dda. Nododd bwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid megis HCC ar lefel ronynnog er mwyn datrys themâu pwysig megis SFS, TB a rheoliadau CoAP. Mae gennym ffocws amgylcheddol ond hefyd gyfrifoldeb cymdeithasol i sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn gweithio ac yn yr un fasged. O ran yr SFS, mae'n rhaid i ni benderfynu sut rydym yn datblygu'r sector ffermio/rheoli tir ar ôl Brexit a chreu rhywbeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rhaid iddo weithio nid yn unig ar gyfer cynhyrchu bwyd ond rhaid iddo hefyd fynd i'r afael ag ansawdd pridd, aer a dŵr ymhlith y materion amgylcheddol eraill. Mae angen i'r sector ffermio gymryd rhan cyn i'r cynllun gael ei weithredu er mwyn cael cyfle i addasu busnesau. Gwyddom mai pwynt gwerthu mawr Cymru yw ein tir gwyrdd a dymunol ond mae angen inni ddelio â llygredd dŵr er mwyn inni allu cynnal y ddelwedd gadarnhaol honno ar gyfer marchnadoedd allforio a'n henw da yn gyffredinol. Cyhoeddir cadeirydd annibynnol yn fuan i arwain yr adolygiad. Mae iechyd anifeiliaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth; mae'n rhan annatod o'n cynnyrch Bwyd Cymreig a'n henw da. Mae TB yn broblem barhaus, gyda tharged i'w ddileu erbyn 2041. Mae mater lladd ar y fferm yn cael sylw.

Cafwyd trafodaeth ar yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant cig coch, y pryderon ynglŷn â thrwybwn da byw a phwysigrwydd màs critigol i gynnal y diwydiant a'r sector prosesu yng Nghymru. Cydnabuwyd rôl bwysig HCC.

Ar ran y Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol, diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifennydd y Cabinet am ymuno â'r cyfarfod.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelodau o'r Bwrdd, Rhys Davies a Vicki Spencer - Francis; Gwyn Howells, Prif Weithredwr (ar seibiant salwch o hyd); a Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Nodwyd y byddai'r Aelod Bwrdd, Prys Morgan, yn gorfod gadael y cyfarfod am 10am er mwyn mynychu digwyddiad arall.

2. **Gweithgareddau a diweddariadau o'r diwydiant**

Rhoddwyd diweddariad gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau ynghylch yr hyn a ganlyn:

- Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer Ymgyrch Cig Oen Cymru, 2024 / 2025 (cyfeirir at hyn yn eitem agenda 4)

- Parhaodd gwaith gydag allforwyr / proseswyr o ran darparu cyfrifon allweddol ac ymgysylltu ar gyfer marchnadoedd newydd posibl. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wella ymhellach ar ôl penodi Jason Craig yn Arweinydd Datblygu'r Farchnad gyda HCC.

- Sioeau Masnach – Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn Sioe Fwyd Ffansi Haf, Efrog Newydd o 23 – 24 Mehefin 2024. Mae'r digwyddiad, a gynhelir yn flynyddol, yn denu miloedd o brynwyr, broceriaid, dosbarthwyr a gweithwyr proffesiynol y diwydiant ledled y byd. Roedd trefniadau ar y gweill i HCC gynnal dau dderbyniad ar gyfer cyfleoedd i rwydweithio a chreu busnes. Byddai gwahoddiadau'n cael eu rhoi i gynrychiolwyr masnach, gan gynnwys prynwyr a mân-werthwyr allweddol, yn ogystal â'r wasg i fod yn bresennol.

- Bydd HCC yn cael ei gynrychioli yn y Sioe Addysg Genedlaethol a gynhelir yn Llandudno ar 14 Mehefin 2024. Mae hyn yn rhoi cyfle i friffio athrawon a chynrychiolwyr eraill o'r sector addysg ar negeseuon iechyd allweddol a phwysigrwydd cig coch fel rhan o ddiet gytbwys a iach.

Rhoddodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol y diweddariad a ganlyn:

- Roedd presenoldeb HCC yn nigwyddiad Glaswellt a Thail Cynaliadwy Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ar Fferm Prifysgol Aberystwyth, Trawsgoed ar 30 Mai 2024 wedi bod yn werth chweil. Cafwyd cyfle i rwydweithio gyda nifer o randdeiliaid ynghylch rôl bwysig ffermwyr da byw o ran rheoli tiroedd glas a thynnwyd sylw at waith y prosiect GrassCheckGB Ymunodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol â phanel o arbenigwyr fel prif siaradwr mewn seminar o'r enw "Seminar Gwyddoniaeth Gynaliadwy" a dosbarthodd y tîm gopïau o lawlyfr y rhestr Glaswellt a Meillion a Argymhellir sydd newydd ei gyhoeddi.

- Yr amser cau am geisiadau ar gyfer Rhaglen newydd Cig-weithio HCC oedd 5pm dydd Gwener 7 Mehefin 2024. Roedd nifer o geisiadau amrywiol a chredadwy o bob rhan o'r sector eisoes wedi dod i law a byddent yn cael eu hystyried maes o law.

3. **I gael diweddariad am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2024**

Cymerwyd bod y papur a lan lwythwyd ar Sharepoint cyn y cyfarfod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Roedd y Swyddogion Gweithredol wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r hyn a allai weithio i HCC a thalwyr yr Ardoll o dan gyllideb gyfyngedig.

Dangoswyd delweddau'r stondin i'r Bwrdd. Y prif wahaniaeth i dynnu sylw ato oedd absenoldeb cegin gan mai dyma elfen ddrutaf y stondin.

Byddai brecwast HCC yn dal i gael ei gynnal ar y stondin. Yr unig wahaniaeth oedd na fyddai'r bwyd yn cael ei goginio ar y stondin ac y byddai naill ai'n frecwast oer wedi'i ddarparu gan HCC neu'n frecwast poeth wedi ei ddarparu gan arlwywr allanol. Roedd opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

Gofynnwyd a oedd unrhyw fodd defnyddio trelar HCC yn y Sioe. Gellid archwilio'r opsiwn hwn eto rywbryd yn y dyfodol

Byddai'r stondin yn tynnu sylw ffermwyr at yr hyn y mae eu harian Ardoll yn talu amdano ar ffurf amrywiaeth o raffeg wybodaeth. Byddai digon o gyfle hefyd i dalwyr yr Ardoll ac i ymgysylltu â'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol drwy weithgarwch rhyngweithiol a seminarau ar y stondin o bosibl. Byddai HCC yn bartner i Lywodraeth Cymru o ran ymgysylltu / gweithgaredd datblygu masnach a byddai gwaith ymgysylltu â defnyddwyr yn cael ei wneud trwy weithgarwch cyfrifon allweddol ehangach ar stondinau mân-werthu. Roedd bwriad hefyd i gynnal seminarau gyda'r undebau ffermio, CFfI Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i osod HCC fel arweinydd meddwl a hefyd i gyflawni amcanion trosglwyddo gwybodaeth.

Teimlai'r Bwrdd, er gwaethaf y newid sylweddol i bresenoldeb HCC eleni, ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol. Cafodd y dull newydd cyffredinol dderbyniad da ac er bod y stondin yn llai, teimlwyd bod presenoldeb HCC yn ehangach ac yn fwy mewn ffyrdd gwahanol.

Byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ymhellach ar weithgareddau HCC drwy gydol y Sioe yng nghyfarfod y Bwrdd ar 4 Gorffennaf 2024.

4. **Derbyn diweddariad ar gynllunio Ymgyrch Cig Oen Cymru 2024 / 2025**

Cyflwynwyd yr uchod gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei lan lwytho i Sharepoint er gwybodaeth i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

5. **Unrhyw fater arall**

*Gweledigaeth HCC 2025 – 2030*

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod trafodaeth ymhlith yr Uwch-dîm Arweinyddol wedi dechrau ar yr uchod ac y byddai'n cael ei ddatblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r Bwrdd roi ystyriaeth ac adborth i'r Uwch-dîm Arweinyddol ar safbwyntiau, meysydd allweddol strategol i'w hystyried a heriau i'r diwydiant a allai gyfrannu at ddatblygu'r Weledigaeth newydd.

*Ymddiswyddiad – Julie Davies-Jones, Cynorthwy-ydd Personol*

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Julie am ei hymroddiad a'i chyfraniad i HCC dros y pedair blynedd ar hugain diwethaf yn ei rôl fel Cynorthwy-ydd Personol

ac yn arbennig am y gwaith gwerthfawr a wnaed wrth gyflawni gwaith ysgrifenyddol i'r Bwrdd.

Ar ran y staff, llongyfarchodd y Prif Weithredwr Dros Dro Julie ar ei phenodiad newydd fel Cynorthwyydd Personol gyda Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

6. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Dydd Iau 4 Gorffennaf 2024 – cyfarfod ffurfiol o Fwrdd HCC
Dydd Iau 5 Medi 2024 – Diweddariad Teams Bwrdd HCC.

**Llofnodwyd…………………………….**